



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 23AIN EBRILL, 2024

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Meryl Roberts

Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Peter Thomas

Hefin Underwood
Sedd Wag x2

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gyhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TÎM ARWEINYDDIAD A GWASANAETHAU CYFREITHIOL 10 - 18

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED 19 - 23

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith.

7. DIWEDDARIAD AR WAITH MENTER IAITH GWYNEDD

24 - 30

I ddarparu cefndir i Aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

PWYLLGOR IAITH: DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

Elfed Wyn ap Elwyn, Jina Gwyrfai, Peter Thomas, Elfed Williams, Menna Baines, Llio Elenid Owen a Meryl Roberts

Swyddogion: Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Nia Haf Lewis (Ymgynghorydd Iaith), Bet Huws (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Iwan Hywel (Pen Swyddog Hunaniaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Debbie Annes Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Addysg: Gwasanaethau Corfforaethol), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Adran Addysg: Uwchradd) a Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

Eitem 6: Ian Jones (Pennaeth Adran Cefnogaeth Corfforaethol).

Eitem 7: Hedd Morlais Glyn Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo), Lowri Cadwaladr Roberts (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo) ac Siôn Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol Adran Tai ac Eiddo).

Eitem 8: Steffan Jones (Pennaeth Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC) a Siôn Arwel Jones (Rheolwr Datblygu Busnes, Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sasha Williams, Alan Jones Evans ac Olaf Cai Larsen

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG ADRAN ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, yn absenoldeb y Pennaeth Addysg. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd ar nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan yr adran er mwyn codi statws y Gymraeg wrth alluogi plant a disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hysgolion ac yn gymunedol. Eglurwyd bod yr adran wedi gweithredu nifer o brosiectau fel rhan o Siarter Iaith Llywodraeth Cymru. Eglurwyd bod fframwaith newydd y Siarter yn rhan o gyfres o raglenni newydd Llywodraeth Cymru sy'n anelu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Cadarnhawyd fod yr Adran yn rhannu'r uchelgais hwn o gynyddu'r defnydd o Gymraeg. Nodwyd bod arian yn cael ei ddyrannu i bob dalgylch o fewn y Sir i drefnu gweithgareddau i annog y defnydd o'r Gymraeg. Soniwyd mai un o'r amodau wrth ddyrannu'r arian yw bod gweithgareddau yn cael eu gwneud ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei ddefnyddio wrth i'r disgyblion drosglwyddo i'r ysgolion uwchradd. Pwysleisiwyd bod targedu'r garfan yma o blant yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod profiadau apelgar a chadarnhaol yr ysgolion uwchradd yn digwydd drwy'r Gymraeg yn naturiol.

Rhannwyd diweddariad o weithgareddau dalgylchol er mwyn tynnu sylw at y cyfleoedd mae plant a phobl ifanc o bob ardal o Wynedd yn eu derbyn.

Eglurwyd bod Fforymau Iaith wedi cael eu sefydlu ym mhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd sy'n arwain ar waith y Strategaeth Iaith Uwchradd a phwysleisio pwysigrwydd bod yn ddwyieithog. Manylwyd bod y Fforymau hefyd yn cynnal sesiynau Hybu Balchder mewn Cymreictod.

Adroddwyd bod cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediad cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnwyd sylw at y ffigyrau isod a gasglwyd o blith canlyniadau cohort Blwyddyn 11 ysgolion uwchradd Gwynedd ar ddiwedd cyfnod yr haf 2023:

- Roedd 71.7% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn astudio o leiaf 3 pwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- Roedd 67.8% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn astudio o leiaf 5 pwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- Roed 87.1% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf

Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Addysg: Uwchradd, bod y ffigur hwn o 67.8% yn gymharol sefydlog ond cydnabuwyd bod angen cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n astudio o leiaf 5 pwnc CA4 drwy'r Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. Er hyn, cydnabuwyd bod hyn yn broses heriol oherwydd bod yr ystadegyn yn cynnwys disgyblion ysgolion trosiannol.

Darparwyd gwybodaeth am garfannau iaith y disgyblion, gan gynnwys disgyblion oed pontio. Sicrhawyd bod yr adran yn cydweithio'n rheolaidd gyda chydlynwyr iaith ym mhob dalgylch er mwyn casglu data ieithyddol disgyblion Blynnyddoedd 2,6 a 9 er mwyn sicrhau ei bod yn gwneud cynnydd ieithyddol o fewn y cwricwlwm.

Tynnwyd sylw at ddynodiadau iaith staff yr adran a darparwyd dadansoddiad o asesiadau staff yn seiliedig ar Fframwaith y Dynodiadau Iaith. Cydnabuwyd bod gan yr adran le i wella, drwy sicrhau mynediad i'r hunan asesiad ar gyfer holl staff yr adran, er mwyn adnabod rhai sydd angen cefnogaeth. Eglurwyd mai prif rwystr yr adran yn y maes yma

yw cyrraedd yr aelodau staff hynny sydd heb gyfarpar technolegol i lenwi'r holiadur yn electronig. Nodwyd bod yr adran yn gweithio i hyrwyddo pwysigrwydd y dynodiadau iaith ymysg staff. Cadarnhawyd bod yr adran yn cydweithio gyda Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod aelodau staff yn hyderus yn eu gallu ieithyddol. Manylwyd bod taenlen o aelodau staff sydd heb gwblhau'r hunanasesiad, neu angen cymorth i gyrraedd dynodiad iaith eu swydd, yn cael ei rannu gyda swyddog addas yn rheolaidd. Diolchwyd i'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg am hysbysu cyrsiau a hyfforddiant sydd ar gael i'w cymhorthi.

Nodwyd bod yr adran yn gweithio i oresgyn trafferthion recriwtio yn y maes arlwyio a glanhau. Pwysleisiwyd bod y gwaith hwn yn hynod o bwysig a rhannwyd gwerthfawrogiad yr holl staff am weithio i sicrhau fod yr ysgolion yn lan ac yn ddiogel drwy gydol cyfnod y pandemig, yn ogystal â pharatoi pecynnau bwyd. Ystyriwyd bod yr heriau recriwtio yn fwy dwys mewn ardaloedd gwledig o'r Sir ond gobeithir bydd datrysiad i'r her yn fuan.

Cyfeiriwyd at flaenoriaeth 'Ymchwil a Thechnoleg' o fewn Strategaeth Iaith Gwynedd, gan fanylu ar adnodd rhithiol Aberwla. Eglurwyd ei fod yn rithfyd blaengar er mwyn cynorthwyo dysgwyr sy'n mynychu canolfannau trochi i ymarfer patrymau ieithyddol a geirfa. Nodwyd bod yr adnodd hwn wedi cael ei ddatblygu dan nawdd grant referniw trochi hwyr Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Addysg: Uwchradd, bod 42 o fyfyrwyr wedi astudio a chwblhau arholiadau Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch yn ystod haf 2023. Nodwyd mai dim ond disgyblion y 7 ysgol uwchradd gyda darpariaeth Safon Uwch sydd wedi cael eu cynnwys yn yr ystadegyn hwn ac nid yw'n cynnwys unrhyw golegau yn y Sir. Adroddwyd bod y nifer yma o ddisgyblion yn uwch na'r niferoedd a astudiodd y pwnc yn 2022 ac yn gyfystyr â chwarter holl ddisgyblion cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch ar gyfer 2023 yng Nghymru. Nodwyd bod swyddogion yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hybu'r cwrs a denu disgyblion i'w gwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CEFNOGAETH CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Cefnogaeth Corfforaethol a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau mae'r adran yn gweithio arnynt er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys; cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd a'r broses o sefydlu endid annibynnol, prosiect enwau lleoedd a chydweithio gydag ysgolion er mwyn datblygu map enwau lleoedd llafar a Phrosiect 15. Nodwyd bod yr adran wedi cefnogi prentisiaid i gymhwyso drwy'r iaith Gymraeg a dylanwadu ar y sector addysg bellach i gynnal sesiynau cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr.

Cadarnhawyd y mabwysiadwyd Polisi Iaith ddiwygiedig ym mis Hydref 2022 yn ogystal â mabwysiadu'r Strategaeth Iaith newydd ym mis Rhagfyr 2023. Eglurwyd bod y Polisi Iaith yn cael ei hyrwyddo i staff drwy ffyrdd amrywiol gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r penaethiaid adran. Yn ogystal, mae negeseuon yn cael eu rhannu gyda'r staff drwy safle mewnwyd y Cyngor, negeseuon a bwletin wythnosol.

Nodwyd bod gwybodaeth am hyfforddiant i staff a manylion dynodiadau staff yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a bod yr adran yn cynnig cyfleoedd datblygu ychwanegol, megis hyfforddiant Cadernid Iaith a fydd ar gael i'r staff i'r dyfodol. Eglurwyd bod hyn yn ychwanegiad i'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith sydd eisoes mewn bodolaeth. Gobaith yr hyfforddiant newydd yw bydd unigolion yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cadarn eu hiaith ac yn llai parod i droi i'r Saesneg mewn sefyllfaoedd ble nad oes angen gwneud hynny.

Adroddwyd gan Ben Swyddog y Fenter Iaith eu bod yn barod i weithio'n bartneriaethol gydag unrhyw un sy'n awyddus i wneud hynny er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r prif bwyslais yn cael ei roi i feysydd blaenoriaeth y Fenter. Tynnwyd sylw penodol at brosiect sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd gydag M-Sparc, Yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn creu plattform gemau fideo Cymraeg a ariannwyd gan ARFOR.

Cydnabuwyd bod yr adran wedi gorfod blaenoriaethu gwaith yn ddiweddar ac felly nid yw'r gwaith o ddatblygu Map Digwyddiadau Cymraeg wedi symud yn ei flaen yn y misoedd diwethaf. Nodwyd mai'r gobaith yw denu partneriaid i helpu hyrwyddo'r map er mwyn ei boblogi gyda mwy o ddigwyddiadau. Cadarnhawyd bydd hyn yn digwydd yn y misoedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryder gan nifer o Aelodau ynglŷn â'r defnydd o enwau Saesneg ar fapiau'r OS yn ddiweddar. Mewn ymateb i'r pryder hwn, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y Cyngor wedi cael cyfarfodydd gyda'r OS yn y gorfennol ond nad oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar eu gweithredoedd, oherwydd gall unrhyw un gysylltu gyda'r cwmni i gynnig enwau ar gyfer y mapiau. Ymhelaethwyd y bod modd i'r Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol lythyru'r OS yn datgan siom a phryder y Pwyllgor. Cynigwyd i ofyn i'r Aelod Cabinet lythyru'r cwmni yn ffurfiol gan y Cadeirydd.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- 2. Cytunwyd i ofyn i'r Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol lythyru gyda chwmni OS i ddatgan pryder y pwyllgor ynghylch y defnydd o enwau Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg ar amryw o leoliadau ar eu mapiau.**

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod yr adran yn cynnal cymysgedd o wasanaethau rheng flaen, corfforaethol a masnachol a sicrhawyd bod gallu cyflawni dyletswyddau'r adran yn ddwyieithog, gan barchu iaith ddewisol y cwsmer yn hollbwysig

Diweddarwyd yr Aelodau bod yr adran wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2023. Nodwyd bod y digwyddiadau ar y thema 'Gwynedd Glyd' ac yn codi ymwybyddiaeth am gynlluniau tai sydd gan y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai presennol, a bod oddeutu 60% o boblogaeth y Sir wedi eu prasio allan o'r farchnad leol ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod y sesiynau hyn wedi bod yn fuddiol, o ystyried bod symudedd a mudo yn her fawr i'r adran a'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Adroddwyd bod prif gynlluniau i'w gweld yng Nghynllun Gweithredu Tai yr adran. Eglurwyd bod 30 o brosiectau gweithredol a strategol wedi eu cynnwys yn y cynllun gyda gweledigaeth o'u datblygiad am y 6 mlynedd nesaf. Tynnwyd sylw at grant elfennau trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol. Esboniwyd ei fod yn grant a ddarperir i gymunedau er mwyn datblygu unedau byw ychwanegol.

Cadarnhawyd bod 96% o staff yr adran yn cyrraedd lefel dynodiad iaith eu swydd, gyda 60% o'r staff hynny yn cyrraedd lefelau uwch na gofynion ieithyddol eu swyddi. Manylwyd bod 85% o holl staff yr adran wedi cwblhau'r hunanasesiad ieithyddol yn dilyn anogaeth barhaus y pennaeth. Atgoffwyd bod hyn yn gynnydd o 6% o holl staff yr adran.

Pwysleisiwyd yr ystyrir cyfleon dysgu o fewn yr adran i'r staff. Nodwyd bod swyddogion yn cefnogi staff sydd yn ddihyder yn eu sgiliau ieithyddol. Dathlwyd bod nifer o aelodau staff yr adran wedi cwblhau hyfforddiant ieithyddol yn wirfoddol y tu hwnt i'r gwaith. Soniwyd bod yr adran wedi adnabod her i rai o staff y Cyngor wrth ddilyn trefniant gweithio'n hybrid. Ystyriwyd bod gweithio o adref rhai dyddiau yn lleihau'r cyfleoedd mae dysgwyr Cymraeg yn ei gael i ymarfer eu sgiliau ieithyddol. Pwysleisiwyd bod yr adran yn sicrhau bod pob cyfle yn cael ei roi i'r staff perthnasol i ymarfer eu Cymraeg a bod hyn yn ystyriaeth i'r dyfodol wrth i drefniant gweithio'n hybrid newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2024.

Soniwyd bod yr adran yn gosod amod bod rhaid i'r darparwyr gwasanaeth a chefnogaeth fod yn gallu siarad Cymraeg mewn perthynas â Chytundebau Lefel Gwasanaeth. Rhannwyd enghreifftiau a welwyd ar gyfer Tŷ Adferiad, Porthmadog yn ogystal â safleoedd ym Mangor.

Rhannwyd rhwystredigaeth ar ddiffyg adnoddau a hyfforddiant Cymraeg neu ddwyieithog yn y maes tai. Sicrhawyd yr aelodau bod yr adran yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i hyn. Manylwyd bod nifer o drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu cynnal yn Saesneg ar hyn o bryd, heb roi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Cadarnhawyd byddai'r adran yn croesawu newid er mwyn gweld cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfieithiad byw a dogfennaeth ddwyieithog wedi'i ddarparu. Sicrhawyd bod trafodaethau'r adran gyda phartneriaid a chymdeithasau tai yng Ngwynedd yn cael eu cynnal drwy'r Gymraeg, gyda chyfieithiad ar gael os oes ei angen.

Mewn ymateb i ymholiad ar gynllun Grantiau Tai Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf, eglurwyd bod addasiad wedi cael ei wneud i'r cynllun a olygir bod tai gwag a fu arfer bod yn ail gartrefi yn gymwys ar gyfer y grant. Nodwyd bod 1 cais am grant wedi ei gwblhau yn dilyn yr addasiad yma a bod 5 cais arall yn y broses o gael eu hasesu.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod yr adran yn cynhyrchu Newyddlen Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, yn ogystal â Bwletin YGC, yn rheolaidd. Cadarnhawyd bod y rhain yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr adran oherwydd eu bod yn cael eu cylchredeg yn Gymraeg yn unig. Sicrhawyd bod ymgais yn cael ei wneud fel bod pob aelod o staff yn ei dderbyn, gan argraffu copïau caled i unrhyw aelod o staff sydd ddim yn defnyddio cyfarpar cyfrifiadurol.

Adroddwyd bod yr adran wedi derbyn adborth da wrth iddynt fynychu digwyddiadau cenedlaethol megis Yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan a hefyd y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Nodwyd mai gobaith yr adran yn y digwyddiadau hynny eleni oedd addysgu pobl ifanc am y gwaith mae'r adran yn ei gyflawni.

Cyfeiriwyd at rai o heriau mae'r adran yn ei wynebu, megis dogfennaeth uniaith Saesneg wrth gysylltu gyda phartneriaid a chwmnïau cysylltiol. Er hyn, mynegwyd balchder bod un o beirianwyr YGC wedi ei benodi'n fentor ar gyfer Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) ac yn rhoi cefnogaeth i gynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy ar eu gwaith.

Rhannwyd enghraifft o gamgymeriad ar ran contractwr yn ddiweddar ble nad oedd arwyddion dwyieithog wedi cael eu defnyddio mewn safle gwaith datblygiadol. Cadarnhawyd bod yr adran wedi cynorthwyo gyda chyfieithiadau o'r arwyddion a chafwyd datrysiaid cyflym i'r sefyllfa. Pwysleisiwyd bydd yr adran yn monitro'r defnydd o arwyddion dwyieithog yn agos iawn yn y dyfodol yn dilyn y digwyddiad hwn. Eglurwyd bod modd gosod rhybuddion i gontractwyr a lleihau'r cyfanswm sy'n ddaliadwy iddynt pan mae hyn yn digwyddiad. Cydnabuwyd bod trafferthion o'r fath yn debygol o godi wrth ddefnyddio contractwyr all-sirol, ond eglurwyd bod yr adran yn defnyddio fframweithiau penodol er mwyn canfod contractwyr er mwyn sicrhau safon a gwerth am arian. Pwysleisiwyd bod fframweithiau lleol mewn lle, ond mae rhaid defnyddio contractwyr all-sirol o bryd i'w gilydd pan nad yw'r gwasanaeth ar gael o fewn Gwynedd.

Cadarnhawyd bod yr adran wedi sefydlu system gwasanaeth fflyd newydd. Eglurwyd bod y system yn cynorthwyo tracio cerbydau a rheoli asedau. Nodwyd mai'r Gymraeg sydd yn ymddangos gyntaf ar y system. Esboniwyd bod y system hon yn cael ei ddefnyddio gan rhanddeiliaid eraill megis UK Highways a'r asiantaeth cefnffyrdd.

Adroddwyd bod yr adran yn cyflogi 507 aelod o staff (120 yn y gwasanaeth 7GC a 387 yng ngweddill yr adran), gyda nifer o'r gweithwyr ddim yn defnyddio cyfrifiaduron yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Nodwyd bod yr adran wedi symleiddio'r asesiad ar lein yn ogystal â dosbarthu fersiwn papur er mwyn sicrhau bod gweithwyr llaw yn cwblhau'r asesiad. Esboniwyd bod hyn yn ffactor sydd wedi cynorthwyo'r adran i gynyddu lefel ymatebiad yr hunanasesiad, ac bod 95.63% o staff yr adran bellach wedi ei gwblhau.

Mynegwyd balchder am lwyddiant cyfres o fideos a ddatblygwyd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn egluro dyletswyddau amryw o wasanaethau'r adran. Nodwyd bod y fideos yma wedi cael eu rhannu yn ddwyieithog er mwyn i holl drigolion fod yn ymwybodol o waith yr adran. Cadarnhawyd bod y fideos hyn wedi bod yn llwyddiant mawr a'i fod wedi codi moral o fewn y timoedd. Nodwyd bod yr adran yn hapus ac awyddus i adrannau eraill y Cyngor i gynhyrchu fideos tebyg os ydynt yn dymuno.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:55yp.

CADEIRYDD

<u>CYFARFOD</u>	Pwyllgor Iaith
<u>DYDDIAD</u>	23 Ebrill 2024
<u>TEITL</u>	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol
<u>PWRPAS</u>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
<u>AWDUR</u>	Geraint Owen – Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

1. **CEFNDIR**


- 1.1. Paratowyd yr adroddiad yma er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor Iaith am sut mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- 1.2. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cyflogi 19 o staff gan gynnwys y Prif Weithredwr, dau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Tîm Cefnogaeth Gweithredol, y Tîm Tlodi, yn ogystal â swyddogion Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor. Ymhellach, cyflogir 23 aelod staff o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Yn ei rôl, mae'r Prif Weithredwr, gyda chymorth y Cyfarwyddwyr, yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol gweithlu'r Cyngor.


Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor; yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau priodoldeb; cefnogi'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Etholiadol, ac; yn rhoi cefnogaeth i wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

2. **HYBU A HYRWYDDO**

- 2.1. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am sicrhau fod ein uchelgais o ran hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei arddel ym mhob un o Adrannau'r Cyngor. Mae'n rôl sy'n gofyn iddo fo, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) i gefnogi adrannau ar adegau a thro arall yn golygu herio mewn modd adeiladol.

- 
- 2.2. Mae natur swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn golygu eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol yn rheolaidd. Mae'n anffodus fod rhai sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn parhau i gynnal cyfarfodydd o'r fath drwy gyfrwng y Saesneg yn llawer rhy aml. Yn hyn o beth, gweler yn **Atodiad 1** gopi o lythyr sydd wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru yn ddiweddar sy'n dwyn sylw at y diffygion hyn.
 - 2.3. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi bod yn gyrru ymgais i'r holl staff fod yn gosod Microsoft cyfrwng Cymraeg ar eu dyfeisiadau. Sicrhawyd cynnydd pellach yn y nifer sy'n defnyddio meddalwedd Cymraeg yn y flwyddyn ddiwethaf ond mae angen anogaeth ac ymdrech barhaus er mwyn cyrraedd y nod o bob swyddog yn defnyddio'r meddalwedd Cymraeg.
 - 2.4. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n cadeirio Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor, ac mae gan y Bwrdd hwn gyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Digidol corfforaethol newydd. Mae'r Gymraeg wrth wraidd y Cynllun hwn, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bo unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol.
 - 2.5. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ynghyd â'r Uwch Swyddog Iaith a Chraffu, yn aelod o Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn datblygu modelau polisi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ystyrir aelodaeth y Cyngor o'r Grŵp yn un ymgynghorol er mwyn rhannu arfer dda, ac i'r pwrpas hwnnw, bu cyfarfod penodol rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a'r Dirprwy Gomisiynydd ym mis Mawrth i wyntyllu rhai syniadau ymhellach.
 - 2.6. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, yn eistedd ar Fforwm Iaith Gwynedd a sefydlwyd gan Uned Iaith y Cyngor. Mae'r Fforwm wedi cyfarfod tair gwaith ers ei ffurfio ac yn ddiweddar wedi sefydlu is-grŵp yn benodol i ystyried y cyfleoedd a'r dewisiadau a wneir gan bobl ifanc i ddilyn addysg bellach ac addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
 - 2.7. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn aelod o'r Grŵp Prosiect sy'n hyrwyddo "Prosiect 15", sef ymgais i gynyddu'r deunydd sydd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Clustnodwyd arian i gefnogi'r gwaith hwn sy'n cael ei arwain gan swyddogion yr Uned Iaith.
 - 2.8. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac wedi cael y cyfle i hyrwyddo a chefnogi cynllun sy'n edrych ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn "nrysau blaen" y sefydliadau cyhoeddus eraill yng Ngwynedd.

- 
- 2.9. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi bod yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer sefydlu Menter Iaith Gwynedd, gyda'r rhagolygon y bydd y camau terfynol ffurfiol ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau "Hunaniaith" i'r endid annibynnol hwn yn digwydd yn ystod y flwyddyn i ddod.
- 2.10. Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) gyfrifoldebau penodol o ran hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Disgwylir bod pob llywodraeth leol a Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn penodi uwch arweinydd yn "bencampwr" y Gymraeg fel rhan o raglen waith "Mwy Na Geiriau". Y Cyfarwyddwr Statudol sy'n arddel y rôl honno yng Ngwynedd.
- 2.11. Fel rhan o'r gwaith hyn, mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r pencampwr sicrhau defnydd o'r "Cynnig Rhagweithiol", sef darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, ar bob achlysur. Yng Ngwynedd, er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae'r Cyfarwyddwr yn cadeirio'r grŵp "Mwy na Geiriau", sy'n cyfarfod yn fisol i sicrhau fod systemau'n eu lle i alluogi'r Cynnig Rhagweithiol ar draws y Sir.
- 2.12. Bu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn feirniad ar wobrau cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector gofal.
- 2.13. Mae gan y Cyngor rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth ranbarthol ac mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi chwarae rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu'r partneriaethau hyn, e.e., y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer y Gogledd. Mae sawl deinamig ar waith ynglŷn â sicrhau fod trefniadau'r cyrff yma yn gweithredu'n ddwyieithog; ond, mae'r mewnbwn sydd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu fod y trefniadau, gan gynnwys y ddogfennaeth llywodraethu ac ati, yn cael ei baratoi a'i ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae gallu Gwynedd i gyflawni materion technegol ac arbenigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu ein bod yn gallu rhoi sicrwydd a hyder wrth gyflawni'r amcanion hyn. Mae hyn yn egwyddor sydd wedi'i sefydlu'n glir o fewn ein gwaith partneriaeth ac yn prysur ddatblygu i fod y norm.
- 2.14. Er bod cyflawni gwasanaeth Crwner yn fater sydd yn nwylo deilydd y swyddogaeth, mae sawl agwedd yn perthnasu ei hun i rôl y Gwasanaeth Cyfreithiol:
- 2.14.1. Gan mai Gwynedd sy'n penodi'r Crwner a Chrwneriaid Cynorthwyol, mae gennym ddylanwad sylweddol ar y gofynion ar gyfer y swyddi hyn. Golyga hyn ein bod wedi medru sicrhau fod y sawl sy'n cael eu penodi yn meddu ar y gallu i gyflawni eu dyletswyddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner sydd â throsolwg o'r trefniadau.

- 
- 2.14.2. Mae'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol yn aelod o Grŵp Cynghori ar y Gymraeg Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraethau Cymru a San Steffan. Amcan y Grŵp yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran deddfwriaeth a chanllawiau etholiadol. Mae hefyd yn rhannu arfer da mewn materion yn ymwneud â'r Gymraeg ar draws awdurdodau a sicrhau bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i staff gorsafoedd pleidleisio.
- 2.14.3. Mae'r Swyddog hefyd yn Is-gadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, sy'n darparu cefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad i swyddogion ar draws y Deyrnas Gyfunol. Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn datblygu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i staff gorsafoedd pleidleisio.
- 2.14.4. Mae'r Uned Etholiadol wedi cynorthwyo'r cwmni sy'n darparu ein system reoli etholiadol electroneg i ddatblygu'r gallu i gynhyrchu llythyrau a rhybuddion safonol yn y Gymraeg ac mae'r dogfennau yma hefyd ar gael felly i'r awdurdodau eraill sy'n defnyddio'r un system.


3. MATERION POLISI A SAFONAU

SGILIAU IAITH STAFF

- 3.1. O fewn y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, gellir cadarnhau fod pob aelod o staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi.


RHWYSTRAU

- 3.2. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn comisiynu defnydd o weithwyr locwm a chyfreithwyr allanol er cyfarch gofynion am gapasiti neu arbenigedd penodol. Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn her sicrhau darpariaeth o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ar bob achlysur lle mae hyn yn bosib byddwn yn blaenoriaethu defnyddio unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.3. Yr agwedd arall yw'r angen i gyflogi cyfreithwyr arbenigol lefel uchel sydd yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle'n bosib rydym yn cyfarwyddo cyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd yn meddu â'r sgiliau iaith. Mewn rhai achlysuron mae modd sicrhau gwasanaeth ar y lefel uchaf i roi cyngor neu farn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar faterion sydd un ai angen tîm ehangach, arbenigedd penodol neu faint prosiect mae sicrhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr yn anodd, os nad yn anymarferol. Mae'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi ar gytundebau fframwaith cenedlaethol ond, nid yw hwn yn ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwmnïau. Adlewyrchir hyn yn helaeth hyd yn oed o fewn cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru.

- 
- 3.4. Mae cyfanswm o 22.25 gweithwyr Gyfystyr Swyddi Llawn Amser– 25 unigolyn yn y Gwasanaethau Cyfreithiol . Mae’r oll o’r staff cyflogedig yn gallu cyflawni holl ofynion y swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 3 locum di Gymraeg (cyfystyr a 1.5 swydd) ar hyn o bryd yn cefnogi unai gwaith y Tim Cyfreithiol neu yn bennaf gwaith cyfreithiol rhanbarthol.
- 3.5. Mae modd ystyried yn y tymor canolig fod modd symud i sefyllfa lle mae modd cyflawni yr holl wasanaethau a ddarperir i Wynedd ac yn rhanbarthol drwy’r Gymraeg. Mae’n sefyllfa cyflogi yn benodol yn y maes cyfreithiol wedi gwella o ran denu a chadw staff mewn modd cynaliadwy. Rydym yn adeiladu ar hyn ac yn hyderus y gellir parhau i ddatblygu . Mae hyn yn cynnwys manteisio ar Gynllun Yfory i ddatblygu staff yn fewnol unai drwy hyfforddeion proffesiynol neu brentisiaethau. Mae gofynion penodol ac arbenigol o amgylch ein gwaith rhanbarthol sydd yn gosod gofynion tymor byr sydd rhaid eu cyfarch ac angen arbenigedd o fath arbennig.
- 3.6. Mae’n bwysig cydnabod fod Gwasanaeth Cyfreithiol Gwynedd yn unigryw bron ymhlith y 22 Awdurdod, gan feddu ar dîm lle gallai’r holl swyddogion ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn parhau ac nid yw’r materion a nodwyd wedi newid diwylliant nac ychwaith natur y Gwasanaeth.
- 3.7. Rhaid cyd-weithio â sefydliadau allanol sydd ddim yn gweithredu’n fewnol yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. E.e., mae’r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cyd-weithio agos â’r Bwrdd Iechyd ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae tueddiad gan y Bwrdd Iechyd i droi i’r Saesneg os oes unrhyw un yn y cyfarfod yn methu deall Cymraeg, yn hytrach na sicrhau cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw. Llwyddodd y cyn-Gyfarwyddwr, drwy gydweithio gyda Chyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.
- 3.8. Mae’r Cyfarwyddwr Statudol yn cymryd mantais o’i ddylanwad fel siaradwr Cymraeg i annog defnydd o’r Gymraeg mewn cyfarfodydd a gweithdai allanol, gan gyfrannu’n Gymraeg ar bob achlysur a sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael bob amser.

CANMOLIAETH A CHWYNION

- 3.9. Trefnwyd cynhadledd yn Aberystwyth ym mis Ionawr i ddwyn ynghyd am y tro cyntaf yr amryw gynlluniau graddedig sy’n cael eu rhedeg gan gyrff gyhoeddus yng Nghymru. Cymraeg oedd priod iaith y gynhadledd ac roedd pob siaradwr namyn dau (9 i gyd) yn cyflwyno naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog – gyda chyfieithydd ar y pryd yn hwyluso cyfraniadau Cymraeg. Dywedodd llawer o fynychwyr o sefydliadau allanol yn yr adborth mai’r digwyddiad hwn oedd y gofod proffesiynol mwyaf Cymraeg iddynt fynychu erioed.
- 3.10. Sefydlwyd Rhwydwaith Cynlluniau Graddedig Cymru yn dilyn y gynhadledd, gyda chynrychiolaeth o blith yr amryw gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sy’n rhedeg



cynlluniau graddedig. Cyngor Gwynedd sy'n arwain y Rhwydwaith ac mae'r Gymraeg wrth hanfod y gwaith, gyda chanmoliaeth am hynny wedi'i fynegi gan Efa Gruffydd Jones, Comisiynydd y Gymraeg. E.e., un syniad yw creu cyfleoedd i hyfforddeion graddedig sy'n medru'r Gymraeg ond sy'n gweithio'n bennaf mewn sefydliadau sy'n gweithredu'n fewnol yn Saesneg, i gysgodi hyfforddai mewn sefydliad arall ble mae'r Gymraeg yn brif iaith fusnes, e.e., Cyngor Gwynedd. I'r perwyl hwn, rydym wedi derbyn y datganiad cefnogaeth canlynol gan y Comisiynydd: *“Mae angen gallu cynnig cyfleoedd pwrpasol i bobl ifanc o fewn byd gwaith lle gallent ddefnyddio a gweld gwerth eu Cymraeg. [...] [R]wy'n rwy'n croesawu'n fawr y [Rhwydwaith] i wneud y Gymraeg yn ganolog wrth gyflwyno prentisiaid a hyfforddeion i'r byd gwaith. Bydd yn gyfle i bobl ifanc nad ydynt yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol yn yr iaith a chael blas ar amgylchedd waith Gymraeg ei hiaith. Bydd hefyd yn gyfle i rannu arfer da gyda'r sefydliadau hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.”*

4. CYFLEOEDD DATBLYGU

- 4.1. Mae lle i adlewyrchu ar y gwasanaeth a'r adnoddau ieithyddol sydd o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol megis dogfennau technegol sydd wedi eu creu gennym. Gall hwn fod yn adnodd i'w rannu'n allanol dan amodau priodol petai adnoddau'n caniatáu.
- 4.2. Fel Tîm Arweinyddiaeth, byddwn yn parhau i hyrwyddo a manteisio ar bob cyfle a geir i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phriodol le, nid yn unig yng ngwaith y Cyngor ond hefyd ar lefel cymunedol o fewn y Sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Annwyl Weinidog,

Ar ran y Cyngor hoffem yn gyntaf anfon ein llongyfarchiadau atoch yn eich rôl newydd ar Gabinet y Llywodraeth ac edrychwn ymlaen i gydweithio â chi dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'n drueni fod ein cyswllt cyntaf â chi yn un sy'n mynegi pryder difrifol ynglŷn â'r modd y mae'r Gymraeg yn aml y dyddiau hyn yn cael ei thrin yn israddol gan Lywodraeth Cymru mewn gohebiaeth a chyfarfodydd gyda Chyngor Gwynedd. Mae sawl achos o ohebiaeth uniaith Saesneg gan y Llywodraeth wedi dod i'n sylw, yn ogystal â chyfarfodydd yn cael eu cynnal gan y Llywodraeth heb ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd. Rydym o'r farn nad yw hyn yn bodloni ysbryd y Safonau sydd wedi'u mabwysiadu gan y Llywodraeth mewn perthynas â defnydd y Gymraeg nac ychwaith yn cyd-fynd gyda gofynion Deddf yr Iaith a'ch Polisi Iaith eich hunain. Siom o'r mwyaf yw gorfod cysylltu gyda'r corff deddfu i gwyno am ddiffyg ymrwymiad i'w deddfwriaeth eu hunain – byddem wedi disgwyl i'r Llywodraeth fod yn gosod esiampl i holl sefydliadau cyhoeddus Cymru yn hytrach na bod yn ddibynnol arnom i'ch atgoffa o bwysigrwydd trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob achos.

Dro ar ôl tro rydym fel swyddogion ac Aelodau yn cyrraedd cyfarfodydd rhithiol a wyneb yn wyneb heb ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd. Yn yr un modd, mae'r esiamplau dirifedi o ohebiaeth uniaith Saesneg gyda'r esboniad dilornus fod y pwnc yn un brys ac felly fod swyddogion, a Gweinidogion, yn teimlo y dylid anfon yr ohebiaeth yn uniaith Saesneg am y tro gyda "fersiwn Gymraeg i ddilyn". Nid ydym yn derbyn fod hyn yn dderbyniol ac mae'n cael ei ddefnyddio fel esgus tila a chyfleus yn llawer rhy aml. Yn amlach na pheidio, nid yw'r fersiwn Gymraeg byth yn gweld golau dydd, sydd yn taflu halen ar y briw.

Nid yw'r Gymraeg wedi'i thrin yn gyfartal â'r Saesneg mewn rhan sylweddol o'r ohebiaeth yr ydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth, ac ers mis Mai 2023, rydym wedi derbyn dwsinau o e-byst swyddogol uniaith Saesneg (dros 30 rhwng Mai a Rhagfyr 2023), ble nad oedd fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno ar gael. Roedd llawer iawn o'r atodiadau ynghlwm â'r ohebiaeth hyn, megis dogfennau gweithredol ble roedd gofyn ar y Cyngor i'w llenwi ac ymateb iddynt, rhain hefyd yn uniaith Saesneg. Hoffwn dynnu eich sylw at rai esiamplau o'r math hyn o ohebiaeth isod:

- 17/05/23: Llythyr grant uniaith Saesneg - "Gwynedd – 20mph Grant – 2023-24".
- 18/05/23: Llythyr grant uniaith Saesneg – "Award of Funding FY2023-34 – Local Transport Fund and Ultra Low Emissions Vehicle Transformation Fund".
- 18/05/23: Neges e-bost dwyieithog ond llythyr grant uniaith Saesneg - "Award of Active Travel Fund 2023-24".
- 15/06/23: Neges e-bost uniaith Saesneg yn gofyn am wybodaeth ar stoc dai y sector gymdeithasol - "Urgent Request for Information on over 11m Housing Stock within the Social Sector in Wales".
- 20/06/23: Llythyr grant uniaith Saesneg – "B-GWY-0004 - Correcting the disparity in the condition and suitability of schools Phase III & IV - grant award letter".

- 21/06/23: Dogfennau gwobrwyo cyllid Metro Fund - "Gwynedd - Metro fund FY2023-24".
- 05/07/23: Llythyrau uniaith Saesneg – "Letter to local authority partners: Closure of Afghan hotels".
- 19/12/23: Llythyr grant uniaith Saesneg – "Final Grant Award Letter for 2023-24: Homelessness, 'No one left out' approach".
- 30/10/23: Llythyr grant uniaith Saesneg – "Gwynedd: Award Letter Unadopted Roads 2023-24".
- 02/11/23: Llythyr uniaith Saesneg – "Request for information: Speech Language and Communication Needs (SLCN) Provision".
- 17/11/23: Llythyr uniaith Saesneg – "WG Letter to Las: Annex A Report – Future of Day Services Mencap Cymru".
- 28/11/23: Llythyr grant uniaith Saesneg – "REVISED Final Grant Award Letter for 2023-24 – Homelessness, 'No one left out' approach."

Mae esiamplau o gyfarfodydd heb ddarpariaeth cyfieithu byw hefyd yn ddigwyddiad cyffredin erbyn hyn. Yng nghyfarfod y Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol gyda Llywodraeth Cymru ar ddydd Iau, 7^{fed} o Ragfyr 2023, nid oedd darpariaeth cyfieithu byw wedi'i drefnu. Mae nifer fawr o gyfarfodydd gyda Gweinidogion yn bresennol hefyd i weld yn digwydd drwy'r Saesneg yn unig, yn arbennig rhai rhithiol. Mae cyfarfodydd o'r math hyn yn cael effaith andwyol ar ddefnydd y Gymraeg fel iaith fusnes ac yn amddifadu'n swyddogion o'r dewis i gyfrannu yn eu hiaith gyntaf, a iaith genedlaethol ein gwlad!

Yn ogystal â derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gyda sylwad gan y Llywodraeth y bydd fersiwn Cymraeg yn cael ei yrru ymhen amser (a rheini byth yn ein cyrraedd gan amlaf) a chyfarfodydd uniaith Saesneg, rydym hefyd yn ymwybodol o rai blychau e-byst ar gyfer anfon gohebiaeth Gymraeg i'r Llywodraeth sydd ddim yn gweithio. Tynnwn eich sylw i'r canlynol fel un esiampl:

GC.Gohebiaeth.Gweithlu@llyw.cymru.

Gofynnwn i chi ymchwilio i'r rhesymau tu ôl i'r llacio yma, sydd i'w weld yn digwydd yn llawer rhy aml bellach. A oes penderfyniad bwriadol wedi ei gymryd gan Weinidogion neu swyddogion i'r perwyl hwn?

Y Gymraeg yw iaith weinyddol Cyngor Gwynedd, ac ledled Cymru mae cyrff cyhoeddus - gan gynnwys Llywodraeth Cymru - yn datgan eu bod yn bwriadu cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Fodd bynnag, mae'r patrwm a welwn uchod o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael effaith negyddol, nid yn unig ar ddefnydd yr iaith yn fewnol yn y Cyngor, ond ar yr ymdrech ehangach i gynyddu ei defnydd ym myd gwaith ar draws Cymru. Mae hyn yn greiddiol i

weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg sydd wedi'u gosod arnom i annog a hwyluso defnydd y Gymraeg gan swyddogion cyrff cyhoeddus. Hyderwn y byddwch yn rhannu ein pryder â'n siom gyda'r sefyllfa sydd ohoni ac y byddwch yn rhoi ystyriaeth rhag blaen i gynnwys y llythyr hwn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

Dafydd Gibbard

Prif Weithredwr

Cyng. Dyfrig Siencyn

Arweinydd y Cyngor

Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn

Cadeirydd Pwyllgor Iaith

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	23 Ebrill 2024
TEITL	Adroddiad Adran Economi a Chymuned
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith
AWDUR	Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned

1 CEFNDIR

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth am gyfraniad yr Adran Economi a Chymuned i bolisi iaith Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd dros y flwyddyn diwethaf ac mae'r tabl wedi ei baratoi mewn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor. Mae enghreifftiau perthnasol o wasanaethau'r Adran hoffwn eu amlygu wedi cael eu cynnwys.

Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo

Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?

Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:

1. Iaith y teulu,
2. Iaith dysgu,
3. Iaith gwaith a gwasanaeth,
4. Iaith y gymuned
5. Ymchwil a Thechnoleg

Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf>

Datblygu'r Economi: Mae'r Gwasanaeth wedi cydweithio gyda partneriaid er mwyn cyflwyno cais i Llywodraeth Cymru i ariannu gwedd 2 o Rhaglen Arfor. Pwrpas rhaglen Arfor ydi cefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd. Mae 4 prif amcan:

- Creu cyfleoedd i pobl a teuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid
- Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg
- Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio
- Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Gymraeg

Mae £11m wedi ei glustnodi i'w wario rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2025 ar becyn o brosiectau ac rydym wedi cytuno ar 5 prosiect i'w ariannu:

1. Llwyddo'n Lleol
2. Cymunedau Mentrus

3. Cronfa Her ARFOR
4. Cryfhau Hunaniaeth Cymunedau ARFOR
5. Dysgu o'r Rhaglen ARFOR

Mae'r Adran yn arwain y rhaglen ar draws Cyngor Gwynedd, Mon, Ceredigion a Sir Gâr a bydd gwerthusiad llawn o'r rhaglen ar gael ar ddiwedd y cyfnod i fesur effaith ar y cymunedau.

Cefnogi Busnes: Mae'r Gwasanaeth wedi ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fusnes sydd yn derbyn cymorth ariannol ymrwymo i gwblhau asesiad o'u defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at sicrhau dynodiad 'Cynnig Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, mae 79 busnes o Wynedd wedi cwblhau asesiad a 12 wedi sicrhau'r achrediad 'Cynnig Cymraeg' yn ystod 2023/24.

Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau: Mae'r Gwasanaeth wedi lansio Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sef Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy ar gyfer yr ardal ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Un o'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt yw 'Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth'. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi drwy'r Cynllun i hybu perchnogaeth leol ac i ddatblygu cyfleon i amlygu'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio gyda Prifysgol Bangor i gynnal ymchwil penodol i geisio datblygu ffordd o fesur effaith twristiaeth ar y Gymraeg o fewn ardal beilot yn Nyffryn Ogwen. Fe allai'r gwaith yma arwain at ymchwil pellach yn ystod 2024.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cytuno ar fesurydd newydd, sef '*Canran o drigolion y Sir yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru*' fel bod modd ymateb i'r pryderon a chanfyddiadau drwy weithgareddau neu ymyraethau penodol. Mae modiwlau [Llysgennad Gwynedd](#) hefyd yn hybu ymwybyddiaeth am y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Gwynedd a bellach mae dros 300 o unigolion wedi cofrestru ar y cynllun.

Amgueddfeydd a'r Celfyddydau:

Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn trefnu eu harddangosfeydd i gyd yn ddwyieithog ac yn darparu arlwy o weithgareddau yn y Gymraeg (a rhai dwyieithog hefyd). Mae gofod y caffi yn Storiell yn parhau fel hwb cymunedol gan gyd-weithio gyda Menter Iaith Bangor i gynnal sesiynau caffi babis yn ogystal a sesiynau i annog sgysiau dros baned yn anffurfiol rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn parhau i ddarparu sesiynau'n ddwyieithog ar draws Gwynedd i annog creadigrwydd a llesiant cymunedau Gwynedd trwy'r celfyddydau.

Trwy'r Grantiau SPF/Ffyniant Gyffredin a'r Grantiau Celfyddydau Cymunedol mae cefnogaeth yn cael ei roi i sefydliadau a chwmnïau diwylliannol Gwynedd gan gyrraedd pob rhan o'r sir a chynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

Mewn gweithgareddau celf sydd yn cael eu harwain gan Artist sydd ddim yn siarad Cymraeg mae'r Gwasanaeth yn defnyddio cynorthwyr sydd yn siarad Cymraeg i gefnogi'r Artist i ddysgu, ac i roi gwasanaeth Cymraeg i'r mynychwyr a'r rhieni.

Yn y prosiect Crefft er Lles roedd cymysg o siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn y gweithgareddau – ac roedd yr adborth yn bositif iawn am y cyfle yma i bobl ddysgu Cymraeg mewn awyrgylch ymlaciol a chefnogol.

Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru:

Mae'r Gymraeg yn thema llorweddol o fewn y Cynllun Rheoli ac yn derbyn sylw ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth. Mae trafodaethau wedi cymryd lle i adnabod cyfleon i fonitro unrhyw effeithiau allai ddeillio o brosiectau sy'n datblygu o'r dynodiad ar y Gymraeg trwy gydweithio efo Prifysgol Bangor ac mae trafodaethau'n parhau ar ymchwil dilynol.

Trwy brosiect LleNI LleCHI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol bydd cyfleoedd i hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws y bröydd llechi. Bydd adnoddau a gweithgareddau yn targedu dysgwyr a newydd ymddodiaid a sylw yn cael ei roi at ofalu am enwau llefydd a themau fel nad ydynt yn cael e colli. Bydd nifer fawr o ddigwyddiadau a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth llechi yn rhan o'r prosiect a bydd iaith a diwylliant y dyffrynnoedd llechi yn rhan annatod o'r hyn sy'n cael ei ddathlu a'i llwyfannu drwy'r cynllun.

Archifau Gwynedd: Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn flaengar iawn ac yn darparu deunydd a gweithgareddau i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall yn well eu cymunedau, pwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaeth lleol.

Llyfrgelloedd Gwynedd: Mae mwyafrif llethol o'r gweithgareddau i blant a theluoedd ac oedolion a gynhelir yn Llyfrgelloedd Gwynedd unai drwy'r Gymraeg yn unig neu gyda Chymraeg yn rhan ganolog ohonynt. Credwn mai trwy roi cyfle i bobl glywed a sgwrsio, a chymryd rhan trwy'r Gymraeg, y bydd y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gymunedol, fyw.

Dyma un dyfyniad gan fynychwyr - "The story sessions are the only exposure I have to Welsh nursery rhymes and Welsh stories."

Yn sgil sylw lle bu i siaradwyr newydd ofyn i gael ymuno a sesiwn stori i blant er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg, rydym wedi cychwyn tri grwp Paned a Sgwrs i siaradwyr newydd yn ein Llyfrgelloedd, sef Llyfrgell Abermaw, Cricieth a Bethesda. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i gyflwyno deunyddiau ac adnoddau amrywiol sydd ar gael o'r llyfrgell, ac maent yn aml yn denu 6-12 mynychwr ar y tro. Mae grwp dysgwyr arall hefyd yn cwrdd yn Llyfrgell Nefyn.

Credwn fod gwerth neilltuol o gynnal sesiynau yng nghorff y Llyfrgell fel bod y cyhoedd yn cael clywed yr iaith yn cael ei defnyddio mewn ffordd naturiol ac arferol ac fel bod cyfle i bawb gymdeithasu a chynnal ei gilydd.

Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gyda'r adnoddau hyn ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd a Llyfrgelloedd drwy Gymru. Trwy ein cydweithio ar lefel genedlaethol rydym yn sicrhau bydd rhyngwynebau Cymraeg yn ofyn hanfodol ym mhob tendr systemau a gwasanaethau digidol.

Rydym yn cydweithio gyda Cymraeg i Blant i gynnal sesiynau i blant a theluoedd mewn Llyfrgelloedd penodol ac mae'r cydweitho hwn yn un llwyddiannus dros ben.

Mae rhyngwyneb y rhan fwyaf o systemau ar gael yn Gymraeg yn cynnwys ein catalog ar lein, system hunanwasanaeth a Borrowbox.

Neuadd Dwyfor: Rydym yn datblygu rhaglen ehangach yn y theatr gyda'r pwyslais ar ddatblygu nosweithiau Cymraeg byw gyda bandiau ac artistiaid, megis Al Lewis a Cowbois Rhos Botwnnog.

Parhawn i annog ein timau staff i siarad Cymraeg gyda'i gilydd ac i asesu unrhyw anghenion neu gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyfathrebu'n naturiol gyda'i gilydd yn y Gymraeg.

Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau

- i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau iaith).
- ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi iaith a Safonau'r Gymraeg)?
- iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwylieithog.

Sgiliau iaith Staff:

Roedd 93.7% o staff yr Adran wedi cwblhau pob asesiad iaith erbyn 1 Mawrth 2024, gyda 83.3% wedi cwblhau hunanasesiad yn unig. Roedd 14 aelod o staff heb gyflwyno hunanasesiad iaith ac mae hyn yn bennaf oherwydd eu bod unai yn benodiadau newydd, neu yn staff achlysurol rheng flaen sydd heb fynediad i systemau'r Cyngor. Oherwydd fod casglu gwybodaeth gan staff achlysurol a rheng flaen yn gallu bod yn her, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu asesiadau ar gyfer y swyddogion hyn drwy reolwyr llinell er mwyn nodi os yw'r unigolion yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ai pheidio.

Mae'r asesiadau yn dangos fod 96.65% o staff yr Adran wedi cyrraedd dynodiadau iaith y swydd sydd yn gynydd o'r 93% adroddwyr arno yn 2023.

O'r 7 aelod o staff nad ydyn nhw yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd, byddwn yn targedu'r unigolion hyn i ddilyn hyfforddiant iaith ac mae'r mater yma yn derbyn sylw.

Rhwystrau:

O ran y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, nid yw'n bosib bob tro i weithio gydag artistiaid sydd yn siaradwyr Cymraeg – os mai hyn yw'r achos, rydym yn eu cefnogi i gynnal y gweithgareddau gyda Cymhorthwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg, ac yn rhoi cyfle i'r artistiaid sy'n siaradwyr newydd i ddefnyddio Cymraeg os ydyn nhw'n hyderus i wneud hynny. Mae yna gymorth trwy Cyngor Celfyddydau Cymraeg i artistiaid ddysgu Cymraeg ond efallai byddai'n syniad cynnig mwy o gymorth trwy Cyngor Gwynedd.


Mae hi'n her ar adegau i rannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r celfyddydau yng Ngwynedd ond nad ydynt ar gael yn ddwyieithog.

Mae gallu'r Gwasanaeth hefyd i ddenu gwirfoddolwyr iaith Gymraeg neu siaradwyr newydd yn parhau i fod yn heriol ac rydym yn ystyried y dulliau gorau o fedru denu a rheoli gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth.

Morwrol a Traethau: Roedd recriwtio nifer digonol o swyddogion tymhorol i reoli ein prif draethau yn broblemus iawn unwaith eto yn 2023, ac felly doedd dim dewis ond cyflogi nifer o swyddogion nad oedd yn cwrdd â gofynion iaith y swydd. Roedd hyn yn fwy o broblem yn ein cyrchfannau yn ne'r sir, megis Bermo a Tywyn.

Mae rhai swyddogion parhaol y gwasanaeth, oherwydd mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn parhau i siarad Saesneg gyda'i gilydd er ein hymdrechion i'w hannog a'u cymell i siarad Cymraeg. Mae'n anodd monitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn gyson ym mhob safle, ond mae'r mater yn cael sylw cyson gan y tim i atgoffa pob swyddog o'r disgwyliadau.

Rydym yn annog pob cwsmer sy'n ymweld â'n swyddfeydd i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg - gweler y lluniau atodol.



Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

Fe allai'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau gynnig gweithgareddau ehangach o fewn ein cymunedau i gefnogi llesiant, creadigrwydd, dealltwriaeth diwylliannol a sgiliau ieithyddol – ond mae her barhaol o sicrhau cyllid ychwanegol i fedru cyflawni'r gwaith yma a nid oes cyllideb graidd ar gael yn y Gwasanaeth i weithredu mwy na'r hyn a wneir. Rydym yn ceisio gwneud hyn yn ystod 2024 trwy gyllid Ffyniant Gyffredin (SPF) Llywodraeth y DU yn sgil penodi Swyddog Ymgysylltu a Dysgu.

Trwy brosiectau Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru mae cyfleon i hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws y broydd llechi. Bydd prosiectau sydd ar y gweill yn cynnig cyfleon i ni adeiladu ar y cyfleon hyn wrth i ni ddenu cyllid ychwanegol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu a datblygu prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Drwy ddefnyddio casgliadau'r Gwasanaeth gallai'r Gwasanaeth Archifau gynnig gweithgareddau yn ein cymunedau ac yn ein archifdai i hybu'r Gymraeg. Yn ddibynnol ar y weithgaredd gellir cyflawni hyn unai gyda staff y Gwasanaeth neu drwy gyd-weithio ag eraill – ond mae capasiti i weithredu'n gyfyngedig.

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	23ain Ebrill 2024
TEITL:	Diweddariad ar waith Menter Iaith Gwynedd
AWDUR:	Iwan Hywel, Pen Swyddog, Menter Iaith Gwynedd
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

1. Cefndir

1.1 Bwriad sylfaenol *Menter Iaith Gwynedd yw cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau ac ym mhob cymuned ledled Gwynedd. Yn yr adroddiad hwn, edrychir yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf a chyflwyno esiamplau o waith y swyddogion er mwyn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r math o ymyraethau sydd yn cael eu cynllunio ar draws y gwahanol feysydd.

*Gollyngwyd yr enw "Hunaniaith" yn haf 2023, gan benderfynu ar enw symlach sy'n cyd-fynd gyda gweddill y mentrau iaith ledled y wlad.

1.2 Cychwynnodd Pen Swyddog newydd Menter Iaith Gwynedd ei waith ym mis Mai 2022, hynny yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn 2021 i ariannu Pen Swyddog i'r fenter iaith "i ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol." Ariennir y swydd am 4 blynedd o 2021.

2. Trosolwg o waith 2023-2024

2.1 Mae'r gwaith o allanoli Menter Iaith Gwynedd wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Cofrestrwyd y fenter fel cwmni nid er elw gyda Tŷ'r Cwmniau ar y 1af o Awst 2023 a chafwyd lansiad 'meddal' o flaen gweinidog y Gymraeg ar faes yr Eisteddfod ar stondin Cyngor Gwynedd. Pedwar o wirfoddolwyr yw cyfarwyddwyr y cwmni newydd ac mae grŵp ehangach o 7 ar y grŵp arweiniol sy'n cynghori'r cyfarwyddwyr. Roedd y lansiad yn un 'meddal' i adlewyrchu bod staff cyflogedig yn dal yn gweithio i Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd. Mae cymhlethdodau gyda phensiynau wedi golygu y bydd y 3 aelod staff presennol bellach yn symud i weithio i'r fenter newydd ar y 1af o Ebrill 2025, yn hytrach nag Ebrill eleni. Mi fydd y fenter iaith annibynnol yn derbyn cytundeb lefel gwasanaeth gan y Cyngor i gyflogi un swyddog yn ardal Meirionnydd yn ystod 24-25, hynny yn dilyn ymadawiad un aelod staff yn ystod 23-24 oedd yn creu swydd wag, ac yn synhwyrol felly i'r fenter newydd gyflogi o'r newydd yn hytrach nag ychwanegu cymhlethdod arall at yr allanoli. Mae Bwrdd Prosiect o swyddogion y cyngor yn dod ynghyd yn rheolaidd bellach, yn cynnwys cynrychiolaeth gan adrannau cyllid a chyfreithiol, i drafod y broses allanoli a bydd yn eitem agenda mewn cyfarfod cabinet ym mis Mai.

- 2.2 Mae rhan fwyaf o'n gwaith yn canolbwyntio ar Thema 2 strategaeth Cymraeg 2050, sef 'Cynyddu Defnydd y Gymraeg'. Rhennir ein gwaith gyda'r cyhoedd yn dri maes penodol sef Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd a Cymuned. Yn adran 3 yr adroddiad hwn rhoddir blas o rai o'r prif gynlluniau ddigwyddodd yn 2023-24 o fewn y 3 maes.
- 2.3 Rydym angen denu mwy o wirfoddolwyr i weithredu dros y Gymraeg yn ein cymunedau ar draws y sir, felly nid 'cynnal' neu 'drefnu' digwyddiadau yn unig rydym yn 'nelu i'w wneud, ond cynllunio digwyddiadau ac ymyraethau fydd yn ysbrydoli, fel bod modd i ni rymuso a chefnogi cymunedau ac unigolion i weithredu eu hunain hefyd.
- 2.4 Llwyddwyd i ddenu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, £24,000, o gronfeydd amrywiol oedd yn cynyddu ein capasiti i gynnig mwy o weithgarwch ac yn creu incwm fydd yn gefn i ni wrth i Menter Iaith Gwynedd newid dros y flwyddyn nesaf.

3. Prosiectau penodol

3.1 Teuluoedd

3.1.2 - **Stori a loga**- cafwyd sesiynau i rieni gyda phlant ifanc ym Mangor, Llanbedrog a Bala

3.1.3 **Llanbedrog**- Drwy weithio ar y cyd gyda grŵp lleol 'Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog' cefnogwyd y pwyllgor i gynnal sawl digwyddiad dros y flwyddyn, digwyddiadau megis noson crempogau gyda Tudur Phillips, gwasanaeth carolau a disgo Santes Dwynwen.

3.1.4 **Mynydd Llandygai**- Cafwyd noson gan gwmni mewn cymeriad cyn y Nadolig i deuluoedd y pentref, perfformiad arbennig o sioe Nadolig gyda system gyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai hynny oedd ddim yn gallu'r Gymraeg. Roedd lluniaeth yn dilyn y perfformiad a chyfle i drigolion nodi wrthym ni fel swyddogion y fenter iaith ac i bwyllgor y neuadd beth hoffent ei weld yn digwydd i gefnogi cynyddu defnydd y Gymraeg. Roedd cyfleoedd sgwrsio/ ymarfer y Gymraeg yn anffurfiol, digwyddiadau i deuluoedd a dod i adnabod yr ardal leol yn brif flaenoriaethau.

Bellach mae pwyllgor y neuadd wedi cynnal 'Bore ymarfer y Gymraeg' eu hunain drwy ddefnyddio'r gêm fwrdd Hyderus a brynwyd iddynt gan y fenter, roedd y digwyddiad yn un llwyddiannus gyda 8 o unigolion yn mynychu ac mae trefniadau i gael sesiynau tebyg yn rheolaidd. Cynhaliwyd cyfarfod i drefnu rhaglen o deithiau cerdded a darlithoedd am yr ardal fydd yn cychwyn yn y gwanwyn gyda phwyllgor y neuadd yn arwain ar y trefnu gyda chefnogaeth gan swyddogion cyflogedig y fenter.

3.1.5 **Canolfannau Trochi**- Drwy ddatblygu ein partneriaeth gyda'r adran addysg rydym wedi cychwyn estyn allan i deuluoedd newydd sydd yn anfon eu plant i'r canolfannau trochi er mwyn creu system o gefnogaeth i'r teulu gyfan, nid dim ond y disgybl, gyda'r nod fod hyn yn arwain at y teuluoedd hynny yn dod yn agosach at y Gymraeg ac yn ei defnyddio hi. Rhan o'r gefnogaeth yma yw rhoi cyflwyniadau i rieni, cyflwyniadau am hanes yr iaith, y sefyllfa bresennol, ble i fynd am gefnogaeth a ble i'w defnyddio hi'n lleol.

3.1.6 **Trochi ac Ysgol Pont y Gof**- Mae nifer cynyddol o blant yn y canolfannau trochi ac mae sut i gyflwyno a chroesawu'r teuluoedd hyn fel unedau, a'u denu i ddefnyddio'r Gymraeg, yn bwysig. Gyda hyn mewn golwg, cafwyd cyfarfod yn ysgol Pont y Gof, ar y cyd gyda'r adran addysg i drafod posibiliadau o gynnal prosiect peilot yno. Penderfynwyd bod angen gweithgarwch fyddai'r plant yn ei wneud yn y Gymraeg ond y byddai'r rhieni yn gallu eu mynychu hefyd a bod y gweithgarwch i gario negeseuon am ddefnydd y Gymraeg mewn ffurf hwyliog a dealladwy, ac i gynnwys cyfle i'r rhieni sgwrsio a chael gwybodaeth gan staff y Fenter. Penderfynwyd y bydd y fenter yn arwain ar y gwaith, yn trin y prosiect fel peilot, a'r fenter fyddai berchen y cynllun wedyn. Comisiynwyd Anni Llŷn i greu sioe, fydd yn gallu cael ei defnyddio dro ar ôl tro mewn ysgolion gwahanol, a gafodd ei chreu ar y cyd gyda disgyblion ysgol Pont y Gof, Botwnnog, yn defnyddio eu profiadau fel newydd ddyfodiaid i'r ardal a phrofiadau plant lleol iaith gyntaf yn croesawu plant newydd i'r ardal. Mae gweithdai creu y sioe gyda'r plant wedi digwydd, a'r prif ddigwyddiad i ddod yn y gwanwyn, byddwn

wedyn yn gwerthuso'r digwyddiad a'r prosiect cyfan er mwyn gallu ei fireinio a'i gynnig mewn ardaloedd eraill.

3.1.7 Natur- Cynhaliwyd pedair taith gerdded natur i adnabod enwau Cymraeg a nodweddion gwahanol blanhigion, digwyddodd y rhain yn y Bala, Aber Ogwen, Nefyn a Mynydd Llandygai

3.2 Plant a Phobl Ifanc

3.2.1 Digidol- Yn ddigidol rydym yn bachu ar y cyfleoedd sydd o dynnu ysgolion y sir a'r canolfannau trochi, i wneud gweithgareddau yn y Gymraeg, cynigwyd y canlynol:

- Cwis Dim Clem 2024 (Cwis cenedlaethol y mentrau iaith)- i ysgolion y sir- 26 ysgol a 117 disgybl o Wynedd wedi cymryd rhan, gydag Ysgol Pentreuchaf yn cyrraedd y rownd genedlaethol
- Sesiynau gyda Karen "Kariad" Owen- sesiynau hunan ofal, hwb i'r hunan hyder a gwarchod teimladau i blant cynradd dros Zoom. 10 sesiwn i 140 o ddisgyblion.
- Dydd Miwsig Cymru- cystadleuaeth ddigidol gyda Osian 'Candelas' yn beirniadu a gwobr o gael disgo gan Owain Llŷr yn ymweld â'r ysgol, 27 ysgol wedi cymryd rhan, ac ysgol Rhosgadfan yn ennill!

3.2.2 Ysgolion- Cynigwyd arlwy ehangach i ysgolion yn y cyfnod hwn oherwydd bod y gallu ariannol gennym i wneud hynny oherwydd ymadawiad aelod o staff. Drwy'r gwaith mewn ysgolion ceisiwn ddangos i'r plant bod y Gymraeg yn iaith i'w defnyddio tu allan i'r dosbarth, yn iaith fywiog a modern y mae posib ei defnyddio ymhob agwedd ar fywyd ac sy'n cynnig cyfleoedd yn y dyfodol iddynt yma'n Ngwynedd, ymysg y gwaith gydag ysgolion roedd:

- Taith Ysgolion Uwchradd Menter Iaith Gwynedd- Tara Bandito yn cynnal sesiynau lles a merched mewn cerddoriaeth yn y bore yna gig gan Tara a'r band ifanc lleol Sklark yn y prynhawn. Ymwelodd y daith ag ysgolion Botwnnog, Glan y Môr, Godre'r Berwyn, Dyffryn Ogwen, Tryfan a Tywyn.
- Gweithdai creu Emojis yn ysgolion Edern a Godre'r Berwyn
- Sesiynau rapio gan Ed Holden yn Bontnewydd a Llanllyfni- gwobrau 2il a 3ydd y gystadleuaeth dydd miwsig Cymru
- Twmpath gwerin a sesiynau darllen a sesiynau gemau buarth yn ysgol Hiracl
- Sesiynau 'Barod neu Beidio' yn ysgol Llandygai
- Diwrnod yng Nglan Llŷn i ddisgyblion iau ysgol uwchradd Tywyn

3.2.3 Ysgolion Uwchradd Bangor- cais grant llwyddiannus i gronfa cymunedol y loteri wedi golygu bod cynllun awyr agored i ddisgyblion blynyddoedd 8 ysgolion Tryfan a Friars wedi parhau eleni, prosiect sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg yn y maes awyr agored.

Mynychwyd ffair gyrfaedd yn Ysgol Friars, Bangor, hynny yn dilyn gwahoddiad gan Gyrfa Cymru oedd yn trefnu'r digwyddiad. Rhoddwyd cyflwyniad gennym i holl blant blynyddoedd

7,8 a 9 yr ysgol ar y Gymraeg yn y byd gwaith cyn iddynt gael cyfle i gwrdd â gwahanol gyflogwyr. Cymerwyd y cyfle i recordio rhai o'r cyflogwyr yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg iddynt, ac rydym am ddatblygu hwn fel adnodd ar y cyd rhwng y fenter, MSparc, Uned Iaith y Cyngor ac (yn ddibynnol ar gytundeb terfynol ganddynt) Gyrfa Cymru.

3.2.4 Yr Urdd ac Adran Ieuencid Cyngor Gwynedd- yn ystod y flwyddyn, cyd ariannwyd swyddog cymunedol newydd i'r Urdd rhwng y fenter, Yr Urdd ac adran ieuencid y cyngor. Pwrpas y swydd yw cychwyn adrannau pentref newydd yma yng Ngwynedd.

3.2.5 Llwyfan Llŷn - Clwb theatr ym Mhen Llŷn, cychwynwyd gyda chyllid y fenter yn talu am yr hwylusydd a'r lleoliad rai blynyddoedd yn nôl, parhaodd ein cefnogaeth i leihau yn raddol ac ers yr Hydref mae'r clwb yn rhedeg heb gymhorthdal gan y Fenter.

3.2.6 Theatr Derek Williams- rydym am geisio efelychu'r hyn sydd wedi digwydd gyda Llwyfan Llŷn yn y Bala a chefnogi theatr Derek Williams i ail gychwyn clwb theatr oedd yn bodoli cyn cyfnod Covid. Hyd yma mae dwy y sesiwn blasu wedi bod a dros 100 o blant wedi mynychu.

3.3 Cymuned

Drwy ein gwaith cymunedol rydym yn ceisio grymuso unigolion a chymunedau i gymryd yr awenau a threfnu pethau lleol yn Gymraeg, yn ogystal â threfnu digwyddiadau sy'n tynnu cymunedau at ei gilydd, yn codi bri ac ymwybyddiaeth ac yn dangos beth sy'n bosib, yn y cyfnod hwn digwyddodd:

3.3.1 Digwyddiadau dathlu Gŵyl Ddewi, dinas Bangor- Mae dathliadau gŵyl Dewi Bangor wedi tyfu yn llawer mwy na'r orymdaith ei hun, a bellach yn gyfres o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu ar y cyd gyda gwahanol fudiadau a grwpiau yn arwain ar wahanol elfennau, gyda Menter Iaith Bangor yn cydlynu. Ymysg y partneriaid sy'n rhan o Wyl Dewi Bangor mae Storiol, Pontio, MSparc, Cymraeg i Blant, Cyngor Dinas Bangor, Y Frân Wen, grŵp Bangor yn Gyntaf a'r Gadeirlan. Eleni gwelwyd pethau newydd yn digwydd yn naturiol gyda mudiadau yn cymryd y cyfle i blethu prosiectau gyda dathliadau Gŵyl Dewi, gwelwyd enghreifftiau fel Y Frân Wen yn mynd mewn i ysgolion y fro cyn yr orymdaith yn gwneud gweithdai theatr, busnes lleol (Tafarn y Garth) yn mynd mewn i ysgol gynradd leol i wneud gweithdy cacennau a MSparc ar y lôn yn cynnal gweithdai celf i greu y ddraig enfawr oedd ar flaen yr orymdaith. Gwelwn felly fod gwaith Menter Iaith Bangor yn dwyn ffrwyth yn y ddinas a digwyddiadau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn deillio oherwydd gwaith partneriaethol y fenter

3.3.2 Sesiynau Rheolaidd i Ddysgwyr- Paned a Moidyr (Bangor), Peint a Sgwrs (Bangor)- sesiynau rheolaidd i ddysgwyr- digwyddiadau sy'n derbyn ein cefnogaeth ni, ond sydd hefyd yn ddibynnol ar wirfoddolwyr ac sy'n gallu digwydd heb aelodau staff yn

mynychu, sef y ddelfryd rydym yn anelu ato gyda sesiynau i ddysgwyr, a gweithgarwch arall, ar draws y sir.

3.3.3 **Clonc a Lonc, Bangor**- clwb ymarfer loncian ysgafn pob pythefnos gyda'r pwyslais ar fwynhau a siarad yn hytrach na rhedeg yn gyflym

3.3.4 **Teithiau Cerdded i Ddysgwyr**-Mae ein teithiau cerdded i ddysgwyr yn parhau yn boblogaidd tu hwnt, ac er bod teimlad bod hyn yn drwm o ran amser staff, mae adborth clir gan y dysgwyr fod y rhain yn cael eu mwynhau'n ofnadwy ac yn hanfodol i ychwanegu at eu profiad o ddysgu yn y dosbarth ac i ddod i ddeall a theimlo'n rhan o'u cymunedau lleol. Anelwn i ddatblygu'r rhain gyda mwy o arweinwyr gwirfoddol yn y dyfodol.

3.3.5 **Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru**- cyfres o ddigwyddiadau 'Croeso i'r Gymraeg' wedi eu trefnu ar gyfer aelodau'r gymdeithas a sesiynau cyffelyb i ddefnyddwyr gwasanaeth Adfer yn ardal Bangor.

3.3.6 **Rhosgadfan**- cefnogi cyfarfodydd diweddar sy'n trafod dyfodol canolfan Cae Gors yn y pentref, yn arbennig sut gellir defnyddio'r adnodd fel hwb i'r Gymraeg ac i gymhathu newydd-ddyfodiaid yn yr ardal.

3.3.7 **Gweithdai Cymunedol/ Ardaloedd Blaenoriaeth**- fel y gwelir mae dipyn o'n gwaith yn canolbwyntio ar ambell ardal- Llŷn, Bangor/ Ogwen a Phenllyn. Gwnawn hyn er mwyn gallu gweithio ar lefel leol i greu gwahaniaeth y byddwn yn gallu ei dystiolaethu yn y pen draw, ond pwysleisiwn bod y fenter yma i Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Gwynedd gyfan a'r bwriad ydy allanoli i gynyddu capasiti fydd yn galluogi i ni ganolbwyntio ar bob ardal.

O ran ein hardaloedd blaenoriaeth rydym wedi cynnal Gweithdai Cymunedol yn y Bala, Botwnnog a Bethesda, cafwyd ymateb gwyb gan y cymunedau lleol, dros 90 o unigolion yn mynychu ar draws y 3 gweithdy, a byddwn yn mynd ati i ddatblygu cynlluniau gweithredu'n lleol i'r ardaloedd hyn.

3.3.8 **Mentrau Cymunedol**- mae cydweithio gyda'r holl fentrau cymunedol sydd yng Ngwynedd yn flaenoriaeth i ni, ac yn sicr peidio dyblygu eu gwaith ond yn hytrach eu cefnogi iddynt hwy Hybu'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol. Rydym yn falch o fod yn rhan o Cymunedoli- rhwydwaith newydd mentrau cymunedol Gwynedd.

3.3.9 **Gwaith gyda Phartneriaid**- drwy gydweithio yn unig y gallwn gynyddu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd, ac mae'r fenter yn falch o fod yn aelod o Fforwm Iaith Gwynedd, a weinyddir gan yr Uned Iaith gyda'r fenter yn cadeirio ar hyn o bryd. Yn yr un modd rydym yn falch o fod yn rhan o fforwm iaith addysg Gwynedd ac yn edrych ymlaen i gryfhau ein ymwneud gyda'r adran addysg i gynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

4. Y dyfodol

Mae Menter Iaith Gwynedd wedi datblygu ac esblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a bydd hyn yn cyflymu yn ystod 2023-24.

4.1 **Newid i fod yn endid annibynnol**- bydd hyn wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2025

4.1.2 **Cynllun Busnes y fenter ar ei newydd wedd**- rydym wedi datblygu cynllun busnes. Llwyddwyd i ddenu arian ychwanegol gan gronfa cymunedol y Loteri Fawr, Grymuso Gwynedd, adran Economi Cyngor Gwynedd ac adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Rydym wedi bod yn rhan o geisiadau llwyddiannus gan Mentrau Iaith Cymru i gronfa her Arfor. Byddwn yn anelu am gronfeydd y loteri yn ystod 24-25, yn ogystal ag adnabod bylchau masnachol y gall y Fenter Iaith ar ei newydd wedd ystyried eu llenwi drwy gynnig gwasanaethau masnachol.

4.2 **Blaenoriaethau 24-25**

4.2.1 **Ardaloedd Blaenoriaeth**- Byddwn yn cefnogi cymunedau ar draws y sir, ond byddwn yn canolbwyntio peth o'n gwaith yn ardaloedd Penllyn, Pen Llŷn, Bangor, Dyffryn Ogwen a'r Felinheli.

4.2.2 **Cynulleidfaoedd Blaenoriaeth**- Mae plant a phobl ifanc, a chael plant sy'n gallu siarad Cymraeg i'w defnyddio hi, yn flaenoriaeth. Yn ogystal mae angen cydweithio i ddenu newydd-ddyfodiaid sy'n oedolion at y Gymraeg.

5. Argymhelliad

Argymhellir bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad.